

## **CABINET CYNGOR RHONDDA CYNON TAF**

Cofnodion o gyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ddydd Iau 22 Mawrth 2018 am 10.30am yn Siambr y Cyngor, Y Pafiliynau, Parc Hen Lofa'r Cambrian, Cwm Clydach, Tonypany CF40 2XX.

### **Y Cyngorwyr Bwrdeistref Sirol – Aelodau o'r Cabinet – oedd yn bresennol:-**

Y Cyngorydd A Morgan (Cadeirydd)

Y Cyngorydd M Webber  
Y Cyngorydd G Hopkins  
Y Cyngorydd R Lewis

Y Cyngorydd R Bevan  
Y Cyngorydd M Norris  
Y Cyngorydd C Leyshon

Y Cyngorydd A Crimmings  
Y Cyngorydd J Rosser

### **Swyddogion oedd yn bresennol**

Mr C. Bradshaw, Prif Weithredwr  
Mr C Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Cabinet a Chysylltiadau Cyhoeddus  
Mr C. Lee, Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Gwasanaethau Rheng Flaen  
Mr G Isingrini, Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant  
Ms E Thomas, Cyfarwyddwr Gwasanaeth Addysg a Dysgu Gydol Oes  
Mr N Wheeler, Cyfarwyddwr Gwasanaethau'r Priffyrdd a Gofal y Strydoedd  
Mr P Mee - Cyfarwyddwr Gwasanaethau Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, a'r Gymuned  
Mr R Evans – Cyfarwyddwr Materion Adnoddau Dynol  
Mr R Waters - Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau'r Priffyrdd a Gofal y Strydoedd  
Mr A Wilkins, Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol – Gwasanaethau Corfforaethol a Llywodraethol  
Ms J Ellis - Rheolwr Strategaeth Tai a Buddsoddi  
Ms W Edwards – Pennaeth Addysg yn y Gymuned

### **Eraill oedd yn bresennol**

Y Cyngorydd A Chapman

#### **118 YMDDIHEURIADAU**

Dywedodd y Cyngorydd Bwrdeistref Sirol, M Webber, wrth yr Aelodau y byddai'n rhaid iddi adael y cyfarfod ar ôl ystyried eitem 3 ar yr agenda, oherwydd ymrwymiad busnes arall y Cabinet. Cynigodd ei hymddiheuriadau am weddill y cyfarfod.

#### **119 DATGAN BUDDIANT**

Yn unol â Chôd Ymddygiad y Cyngor, doedd dim datganiadau o fuddiant ynglŷn â'r agenda.

#### **120 COFNODION**

**PENDERFYNODD** y Cabinet gymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Chwefror, 2018 yn rhai cywir.

#### **121 ADRODDIAD CYDRADDOLDEB BLYNYDDOL 2016/17**

Rhoddodd Ymgynghorydd AD y Garfan Cydraddoldeb ac Amrywioldeb wybodaeth i Aelodau'r Cabinet am Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol y Cyngor am y flwyddyn 2016/17.

Cafodd Aelodau'r Cabinet eu cyfeirio at Atodiad 1 lle roedd yr adroddiad cydraddoldeb ar gyfer 2016/17 i'w weld. Esboniodd y swyddog fod yr Adroddiad Blynyddol yma wedi cael ei ddatblygu er mwyn cyflawni dyletswyddau a rhwymedigaethau cyfreithiol y Cyngor i gofnodi ei gynnydd o ran cyflawni Dyletswyddau Cydraddoldeb Cyffredinol a Phenodol.

Esboniodd y swyddog fod ymatebion cadarnhaol wedi dod i law oddi wrth holl feysydd gwasanaeth y Cyngor a byddai'r meysydd sydd angen eu gwella yn parhau i gael eu monitro.

Diolchodd y Dirprwy Arweinydd i'r swyddog a'i charfan am eu gwaith caled parhaus i sicrhau bod CBS RhCT yn hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth ar draws pob maes gwasanaeth. Cyfeiriodd y Dirprwy Arweinydd at brosiect Wave a'r cysylltiadau â Chynllun Corfforaethol y Cyngor. Ychwanegodd bod y Cyngor wedi ymrwmo i egwyddorion cydraddoldeb ac amrywiaeth gan sicrhau bod yr egwyddorion yma'n cael eu dangos trwy gyflenwi gwasanaethau'r Cyngor ac o fewn ei arferion cyflogaeth. Cyfeiriodd y Dirprwy Arweinydd hefyd at yr hyfforddiant cadarnhaol sy'n cael ei wneud gan Reolwyr mewn perthynas â chydaddoldeb ac amrywiaeth.

#### **PENDERFYNODD** y Cabinet:

1. Cyhoeddi Adroddiad Cydraddoldeb y Cyngor 2016/17.

**(O.N.** Ar ddiwedd yr eitem yma, gadawodd y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol M Webber y cyfarfod)

## **122 ASESIAID O'R FARCHNAD DAI LEOL 2017/18 - 2022/23**

Drwy ei hadroddiad a chyda cefnogaeth Cyflwyniad Powerpoint, rhoddodd y Rheolwr Strategaeth Tai a Buddsoddi Asesiad o'r Farchnad Dai Lleol 2017/18 – 2022/23 i'r Aelodau, yn dilyn diweddariad ar yr Asesiad a gynhaliwyd yn 2014/15, fel yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru. Cynghorodd yr Aelodau ynghylch sut y bydd modd symud yr Asesiad ymlaen i ffurfio rhan o'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer y Cynllun Corfforaethol, y Cynllun Datblygu Lleol a'r Cynllun Cyflenwi Tai.

Rhoddodd fanylion i'r Aelodau mewn perthynas â maint aelwydydd ac anghydbwysedd stoc anheddau, yr angen am dai ar draws yr Awdurdod a'r goblygiadau polisi allweddol a gafodd eu hystyried. Ychwanegodd y swyddog fod yr astudiaeth hefyd yn cyfrifo'r diffyg tai fforddiadwy o fewn y Fwrdeistref Sirol yn benodol. Bydd y Cyngor yn ceisio mynd i'r afael â'r diffyg cyn belled ag y bo'n ymarferol bosibl trwy ystod o ymyriadau marchnad. Parhaodd trwy ychwanegu bod yr angen am dai a gafodd ei nodi yn yr Asesiad yn cael ei weld orau ar lefel is-farchnad leol er mwyn sicrhau bod yr angen am wahanol fathau o dai mewn gwahanol farchnadoedd yn cael ei ddeall yn llawn.

Diolchodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Menter, Datblygu, a Thai i'r swyddog am yr adroddiad cynhwysfawr gerbron yr Aelodau, a siaradodd ar y materion cymhleth mewn perthynas ag anghenion tai a'r newid yn y galw. Siaradodd Aelodau'r Cabinet am y Strategaeth Eiddo Gwag a datblygiad cadarnhaol y 'Fforwm Datblygwyr', er mwyn i'r Cyngor drafod anghenion tai y Fwrdeistref Sirol gyda phartneriaid a'r sector preifat i gynorthwyo datblygiadau ar draws y

Fwrdeistref Sirol yn y dyfodol.

**PENDERFYNODD** y Cabinet:

1. Bod yr Asesiad o'r Farchnad Dai Leol (2017/18-2022/23) yn ffynhonnell allweddol o dystiolaeth i gefnogi cyflwyno polisiau tai yn y Cynllun Corfforaethol, y Cynllun Datblygu Lleol a'r Cynllun Cyflenwi Tai.
2. Mae'r Asesiad o'r Farchnad Dai Leol (2017/18-2022/23) fel offeryn i negodi darpariaeth tai fforddiadwy ar geisiadau cynllunio ac i nodi sut mae angen tai yn golygu gwahanol feintiau a mathau o dai fforddiadwy (e.e. rhent cymdeithasol a pherchnogaeth tai cost isel).
3. Asesiad o'r Farchnad Dai Leol (2017/18-2022/23) i'w ddefnyddio i lywio ceisiadau am gyllid (gan gynnwys Grant Tai Cymdeithasol) ac i ddylanwadu ar ddatblygiad preswyl yn y Fwrdeistref Sirol.

123

**GWASANAETH Y LLYFRGELL DEITHIOL**

Rhoddodd y Pennaeth Addysg yn y Gymuned drosolwg i'r Aelodau o'i hadroddiad, sy'n rhoi gwybod i Aelodau am y cynnig i wella'r ansawdd ac ystod o wasanaethau sy'n cael eu darparu gan Wasanaeth y Llyfrgell Deithiol o'u cymharu â'r hyn mae llyfrgelloedd sefydlog yn ei ddarparu wrth sicrhau bod y Gwasanaeth Llyfrgelloedd yn parhau i fod yn hygyrch i gymunedau ledled Rhondda Cynon Taf.

Hysbysodd y Pennaeth Gwasanaeth yr Aelodau o'r cynnig i gynnal ymgynghoriad wyth wythnos ar y cynigion. Bydd adroddiad pellach yn crynhoi'r ymatebion yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet cyn gwneud unrhyw benderfyniad.

Hysbysodd yr Aelodau fod tri cherbyd Llyfrgell Deithiol y Cyngor ar ddiwedd eu bywyd economaidd a gweithredol. Roedd hyn felly'n creu cyfle i'r Gwasanaeth Llyfrgell herio cyflwyno'r Gwasanaeth Symudol, nodi cyfleoedd i wella'r Gwasanaeth a sicrhau ei fod yn cynnig gwasanaeth cyfatebol i'r hyn sy'n cael ei ddarparu gan lyfrgelloedd sefydlog.

Hysbysodd Pennaeth Addysg yn y Gymuned Aelodau'r gwasanaeth presennol a chydabu, er bod y ddarpariaeth ddaearyddol yn dda, mae'r hyn sydd ar gael yn gyfyngedig, yn rhannol oherwydd y slotiau amser cyfyngol. Mae'r sefyllfa wedi gwaethgu yn ddiweddar oherwydd cyflwr bregus y cerbydau symudol. Mae hyn wedi arwain at wasanaeth anghyson ac annibynadwy.

Cyfeiriodd yr Aelodau at Adran 5 yr adroddiad sy'n amlinellu'r ffordd ymlaen sy'n cael ei hargymell. Bydd hon yn edrych ar ehangu'r gwasanaethau sydd ar gael ar lyfrgelloedd symudol i ddenu rhagor o gwsmeriaid a'i gwneud yn wasanaeth sy'n addas ar gyfer y 21<sup>ain</sup> Ganrif. Dywedodd y swyddog fod ehangu'r meini prawf cymhwysedd yn cael ei argymell i bobl sy'n gaeth i'w cartrefi er mwyn lliniaru'r effeithiau andwyol o leihau nifer y stopiau a chanoli lleoliadau'r Gwasanaeth Llyfrgelloedd Symudol. Bydd y gwasanaeth yma'n cael ei ailfrandio fel y @GwasanaethLlyfrgellCartref.

Siaradodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Addysg a Dysgu Gydol Oes ar y cynigion, gan nodi ar yr olwg gyntaf bod y cynigion yn edrych yn ostyngiad mawr yn y gwasanaeth. Serch hynny, mewn gwirionedd roedd yn ddull mwy ymarferol gyda sesiynau hirach pan fydd y llyfrgell yn stopio, felly gallai'r cyhoedd

ddefnyddio'r gwasanaeth yn fwy effeithiol. Siaradodd yr Aelod o'r Cabinet yn gadarnhaol am y cynnydd ym meini prawf cymhwysedd ar gyfer y gwasanaeth i bobl sy'n gaeth i'w cartrefi ac ail-frandio'r gwasanaeth i gael ei alw'n @GwasanaethLlyfrgellCartref.

Cyfeiriodd yr Aelod o'r Cabinet at y sylwadau yn y Pwyllgor Craffu ar faterion Plant a Phobl Ifainc a fynychodd ar 21 Mawrth, 2018 a gofynnodd am eglurder ynghylch a fyddai'r Gwasanaeth Ymgysylltu â Phobl Ifainc yn cael ei gynnwys fel ymgynghorai i'r broses ymgysylltu pe bai'r cynigion yn cael eu datblygu. Cadarnhaodd swyddogion y byddai'n cael eu cynnwys.

Siaradodd Arweinydd y Cyngor yn gadarnhaol am y cynigion a'r posibilrwydd o wneud y gwasanaeth yn addas i'r pwrpas gan fod y gwasanaeth presennol, sy'n aros mewn lleoliadau am gyfnod o 10-15 munud, yn anymarferol. Dywedodd hefyd y byddai'r defnydd o gysylltiad di-wifr ar y cerbydau'n arwain at gynnig gwasanaeth cynhwysfawr. Nododd yr Arweinydd y byddai dewis lleoliadau'r arosfannau'n ofalus yn bwysig o ran sicrhau llwyddiant y gwasanaeth.

Ar ôl trafod, **PENDERFYNODD** y Cabinet:

1. Cadw'r Gwasanaeth Llyfrgell Deithiol.
2. Cychwyn ymgynghoriad wyth wythnos mewn perthynas â'r cynnig sy'n cael ei amlinellu ym mharagraffau 5.2 a 5.3 yr adroddiad, sef:
  - Lleihau nifer y cerbydau sy'n cael eu defnyddio ar gyfer cyflwyno'r Gwasanaeth Llyfrgell Deithiol o 3 i 2.
  - Buddsoddi mewn dau gerbyd pwrpasol newydd, sy'n cynnig gwasanaethau ychwanegol i'r cerbydau presenol, sef cysylltiad di-wifr. Byddan nhw hefyd yn addas ar gyfer darparu gwybodaeth gan wasanaethau eraill y Cyngor.
  - Newid y dull o gynnig gwasanaeth o 393 o arhosiadau byr bob pythefnos i 48 arhosiad hirach bob tair wythnos a fyddai'n galluogi'r gwasanaeth i ehangu ystod y ddarpariaeth sydd ar gael ar y cerbydau.
  - Ymestyn cwmpas mynediad, ynghyd ag ailfrandio'r Gwasanaeth Llyfrgelloedd i Bobl sy'n Gaeth i'w Cartrefi i'r @GwasanaethLlyfrgellCartref.
3. Cael adroddiad ychwanegol sy'n crynhoi'r canlyniadau a'r adborth a ddaw o'r broses ymgynghori cyn gwneud unrhyw benderfyniad mewn perthynas â'r cynnig.

## **124 DEDDF GWASANAETHAU CYMDEITHASOL A LLESIANT – CRONFA GYFUN: LLETY CARTREFI GOFAL**

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant ddiweddiariad i'r Aelodau mewn perthynas â'r prosiect Cronfa Gyfun ar gyfer Llety Cartrefi Gofal, o fewn y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.

Dywedodd wrth yr Aelodau bod angen i Fwrdd Partneriaeth Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles Cwm Taf (CTSSWPB) sefydlu a chynnal cronfeydd cyfun mewn perthynas ag ymarfer eu cartrefi gofal. Swyddogaeth y cronfeydd cyfun

yw sicrhau bod gan bobl yn rhanbarth Cwm Taf fynediad at ystod eang o wasanaethau llety cartrefi gofal o ansawdd da a all ymateb a diwallu eu hanghenion, pryd a sut y bo angen.

Ychwanegodd y Cyfarwyddwr Cyfadran bod y Gronfa Gyfun yn fecanwaith i wneud comisiynu gwasanaethau cartrefi gofal yn fwy integredig ar draws y Rhanbarth, gan arwain at ddefnyddio adnoddau mewn ffordd fwy tryloyw. Bydd hefyd yn galluogi Bwrdd Partneriaeth Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles Cwm Taf i wella'i broses o wneud penderfyniadau strategol ar gyfer y farchnad yma.

Cyfeiriodd yr Aelodau at adran 6.3 o'r adroddiad sy'n rhoi manylion am raddfa'r cyllid. Ychwanegodd y Cyfarwyddwr Cyfadran bod cynnwys yr adroddiad wedi cael ei adrodd a'i gytuno yng Nghyfarfod Cabinet Cyngor Merthyr Tudful ar 21 Mawrth, 2018.

Gwnaeth yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Gwasanaethau Cymunedol i Blant ac Oedolion sylwadau ar yr adroddiad a hysbysodd Aelodau nad oedd y gronfa yn dod â risg i'r Awdurdod ac roedd hefyd yn dderbyniol i Lywodraeth Cymru. Parhaodd trwy ychwanegu bod y gronfa gyfun yn gam pwysig ymlaen wrth ddarparu gwasanaeth di-dor ar gyfer gofal cymdeithasol.

**PENDERFYNODD** y Cabinet:

1. Nodi cynnwys yr adroddiad.
2. Nodi'r llythyr dyddiedig 9 Chwefror 2018 gan Chris Stevens yn Llywodraeth Cymru, ynghlwm fel Atodiad 1 yr adroddiad.
3. Cymeradwyo'r trefniadau ar gyfer y gronfa Gyfun, gan gynnwys penodi RhCT fel yr awdurdod sy'n rheoli.
4. Cymeradwyo cynnwys y Cytundeb Cyfreithiol (ynghlwm fel Atodiad 2 yr adroddiad).
5. Awdurdodi swyddogion i wneud newidiadau sydd ddim yn berthnasol i'r Cytundeb Cyfreithiol fel maen nhw'n codi yn ystod y broses lywodraethu.

**125 RHAGLEN WAITH Y CABINET: 2017-18**

Rhoddodd yr Ysgrifennydd i'r Cabinet yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau o'r Cabinet am y rhestr arfaethedig o faterion y mae angen i'r Cabinet eu trafod yn ystod blwyddyn y Cyngor 2017 - 18 gan nodi y bydd defnyddio'r rhaglen yn helpu gyda didwylledd a thryloywder y broses gwneud penderfyniadau yn y Cyngor ac yn rhoi rhagor o gyfle i graffu ymlaen llaw.

Cyfeiriodd yr Aelodau at Atodiad 1 o'r adroddiad a dywedwyd wrthyn nhw bod y rhaglen yn ddogfen fyw fel bydd modd ychwanegu neu ddileu adroddiadau yn ystod y flwyddyn.

Rhoddodd yr Ysgrifennydd i'r Cabinet ddiweddariad llafar i'r Aelodau mewn perthynas â'r adroddiad Darparu Cynhyrchion Glanweithiol. Dywedwyd wrth yr Aelodau am hysbysiad ffurfiol a gafodd ei dderbyn mewn perthynas â chyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer darparu Cynhyrchion Glanweithiol ar draws Ysgolion Rhondda Cynon Taf. Ychwanegodd yr Ysgrifennydd bod angen

derbyn y cyllid cyn diwedd y flwyddyn ariannol (31 Mawrth, 2018). Dywedodd yr ysgrifennydd na fyddai derbyn y cynnig yn cyd-fynd â phroses arferol y Cabinet o ran argymhellion Pwyllgorau craffu (h.y. derbyn gan Aelodau ac ystyried cynllun gweithredu).

Gwnaeth yr aelodau sylwadau cadarnhaol am y dyfarniad cyllido ac roedden nhw'n hapus i symud ymlaen, cyn ystyried y cynllun gweithredu swyddogol yn fanwl ym mis Ebrill. Dywedodd yr Ysgrifennydd i'r Cabinet hefyd fod Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Gweithgor Plant a Phobl Ifainc hefyd wedi cael gwybod am y cyfle am gyllid.

**PENDERFYNWYD:**

1. Cymeradwyo'r Rhaglen Waith ar gyfer Blwyddyn y Cyngor 2017-18 a chael yr wybodaeth ddiweddaraf bob 3 mis.

**126 POLISI DIOGELU DATA**

Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen yr Aelodau at ei adroddiad sy'n rhoi manylion am y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) sy'n dod i rym ar 25 Mai 2018 a gofynion yr Awdurdod yn unol â'r rheoliadau.

Dywedodd wrth yr aelodau bod cynllun cyflawni prosiect wedi'i sefydlu gyda'r nod o nodi a blaenoriaethu'r gwaith sydd ei angen i sicrhau cydymffurfiaeth â'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol. Roedd Uwch Arweinwyr y Cyngor hefyd wedi derbyn diweddariadau rheolaidd mewn perthynas â'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol, ac roedden nhw wedi cytuno i adlinio adnoddau i garfan prosiect gorchwyl a gorffen canolog. Byddai'r garfan brosiect yn helpu'r Cyngor i gyflawni'r camau gweithredu a'r cerrig milltir gofynnol.

Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Cyfadran yr Aelodau at y Polisi Diogelu Data Drafft, sy'n helpu i ddangos bod y Cyngor wedi ymrwymo i gyflawni'r safonau uchaf o ran atebolrwydd a thryloywder.

Diolchodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Gwasanaethau Corfforaethol i'r swyddogion am y gwaith sydd wedi'i wneud hyd yma a gwnaeth sylwad ynglŷn â maint y dasg sy'n wynebu'r Awdurdod er mwyn cwrdd â gofynion y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol ar amserlen mor fyr. Serch hynny, ychwanegodd bod y Cyngor mewn lle ardderchog i gwrdd â'r anghenion a'r dyletswyddau yma oherwydd y gwaith sydd wedi'i wneud hyd yma a'r cynlluniau i adeiladau ar yr arferion yma yn y dyfodol.

**PENDERFYNODD y Cabinet:**

1. Derbyn sicrwydd bod trefniadau priodol ar waith i fonitro'r broses o gyflawni'r prosiect Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol rhwng dyddiad yr adroddiad yma a'r dyddiad y daw'r Rheoliad i rym.
2. Cymeradwyo'r Polisi Diogelu Data DRAFFT yn dilyn ei adolygu.
3. Bod rôl 'Swyddog Diogelu Data' yn cael ei ddynodi i aelod o staff presennol o fewn Gwasanaeth Rheoli Gwybodaeth y Cyngor (fel sy'n cael ei ddisgrifio o fewn Polisi Diogelu Data DRAFFT) yn unol â'r

**127 CANOL TREF PONTYPRIDD: RHEOLEIDDIO GOSOD CELFI CAFFI STRYD AR Y BRIFFORDD**

Rhoddodd Cyfarwyddwr y Priffyrdd a Gofal y Strydoedd fanylion i Aelodau ynghylch yr ymgynghoriad diweddar a gafodd ei gynnal mewn perthynas â chynigion i reoleiddio gosod celfi stryd ar y briffordd, sy'n cael eu defnyddio'n arbennig i gefnogi cyfleusterau hamdden a lluniaeth yng nghanol tref Pontypridd, ac yn helpu'r Cabinet i wneud penderfyniad ynghylch y ffordd ymlaen.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth bod Caffis Strydoedd yn gallu gwneud cyfraniad cadarnhaol i ganol trefi trwy ychwanegu bywiogrwydd, lliw, bywyd a diddordeb i'r strydlun. Maen nhw'n gallu cyfrannu at wneud y defnydd mwyaf posibl o leoedd cyhoeddus, cynorthwyo'r economi leol ac ychwanegu at y cyfleusterau sy'n cael eu cynnig i bobl sy'n byw a gweithio yn y fwrdeistref, ac sy'n ymweld â hi.

Serch hynny, dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth hefyd am yr angen i sicrhau bod celfi stryd o'r fath yn cael eu gweinyddu a'u rheoli'n briodol. Mae gosod byrddau a chadeiriau ar y briffordd heb ganiatâd ysgrifenedig yn rhwystr anghyfreithlon o'r briffordd.

Cafodd yr Aelodau eu hatgoffa am y cynnig i roi trwyddedau i reoleiddio'r briffordd a thynnodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth sylw at yr adborth ymgynghori cadarnhaol i gefnogi'r cynnig yma. Roedd dwy ran o dair o'r ymatebwyr yn nodi y byddai gweithredu cynllun trwyddedu yn gam cadarnhaol er mwyn rheoleiddio lleoli celfi caffi stryd ar y briffordd. Roedd dros 75% o'r rhai a gymerodd ran yn yr ymgynghoriad yn cefnogi awydd y Cyngor i gefnogi diwylliant caffis stryd yng nghanol tref Pontypridd drwy weithredu cynllun trwyddedu.

Gwnaeth Arweinydd y Cyngor sylwadau ar y cynnig a'r barnau cytbwys a roddwyd ar y cynigion. Mae angen sicrhau bywiogrwydd y Canol Trefi ond mae angen sicrhau diogelwch trigolion a'r rhai sy'n defnyddio Canol Trefi hefyd. Dywedodd yr Arweinydd hefyd am y ffi enwol arfaethedig ar gyfer y drwydded a dywedodd wrth yr Aelodau nad oedd y ffi yma'n gwneud incwm ond roedd i dalu am ganiatáu'r drwydded yn unig.

Siaradodd Aelodau Eraill o'r Cabinet yn gadarnhaol ar y cynigion gan ddiolch i'r rhai a gymerodd ran yn yr ymgynghoriad am ddarparu eu hadborth. Serch hynny, soniodd rhai Aelodau am ddryswch rhai perchnogion busnesau mewn perthynas â'r cynigion ynglŷn â rheoleiddio celfi caffi stryd a'r cynigion yn yr ymgynghoriad ar Orchmynion Diogelu Mannau Cyhoeddus (sy'n digwydd ar hyn o bryd hefyd) ac ail-bwysleisiodd yr Aelodau nad oedd cynigion ar Orchmynion Diogelu Mannau Cyhoeddus yn gysylltiedig â'r cynigion gerbron Aelodau heddiw.

Ar ôl trafod, **PENDERFYNODD** y Cabinet:

1. Nodi cefnogaeth eang y rhai a ymatebodd i'r ymgynghoriad mewn perthynas â'r cynnig i reoleiddio lleoliad celfi stryd ar y briffordd, a ddefnyddir yn benodol i gefnogi cyfleusterau hamdden a lluniaeth yng nghanol tref Pontypridd (y 'Cynnig');

2. Ystyried canlyniad yr ymarfer ymgynghori sydd wedi'i gynnal a materion eraill fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad (a'i atodiadau) o ran y Cynnig;
3. Sefydlu cynllun peilot sy'n rheoleiddio lleoliad dodrefn stryd ar y briffordd yng nghanol tref Pontypridd am gyfnod o flwyddyn sy'n cychwyn o fis Ebrill 2018;
4. Pan fo cais wedi'i wneud yn briodol i'r Cyngor, a'i gymeradwyo gan y Cyngor, bydd trwydded yn cael ei rhoi. Bydd y drwydded yn caniatáu trydydd parti i ddarparu adloniant a lluniaeth (y 'Drwydded'), ar Market Street, Church Street, Mill Street, Taff Street neu High Street yng Nghanol Tref Pontypridd (yr 'Ardaloedd Dynodedig'), a bydd yn ddarostyngedig i amodau; a
5. Bydd y Cyngor yn codi ffi flynyddol o £30.50 (yn amodol ar gynnydd blynyddol yn unol â pholisi'r Cyngor mewn perthynas â ffioedd a thaliadau) ar gyfer pob Trwydded sy'n cael ei rhoi o fewn yr Ardaloedd Dynodedig i dalu costau rhesymol y Cyngor wrth gyhoeddi a gweinyddu'r Drwydded.

128

#### **CYFADRAN ADDYSG A DYSGU GYDOL OES - RHAGLEN GYFALAF ATODOL 2018/19**

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Addysg a Dysgu Gydol Oes fanylion i Aelodau'r Cabinet ynghylch gweithiau cyfalaf i'w cymeradwyo ar gyfer 2018/19, fel rhan o Raglen Gyfalaf dair blynedd y Cyngor.

Atgoffodd y Cyfarwyddwr Aelodau'r Cabinet fod swm o £6.876 miliwn wedi'i ddyrannu i'r rhaglen gyfalaf arfaethedig (mân weithiau) ar gyfer 2018/19, fel y cafodd ei gytuno gan y Cyngor ar 28 Chwefror 2018. Aeth yn ei blaen gan roi gwybod y byddai parhau gyda'r Rhaglen Gyfalaf dreigl tair blynedd a chadw lefel y cyllid yn parhau i wneud gwellianau sylweddol i ansawdd adeiladau ein hysgolion ac mae wedi bod yn rhan hollbwysig o raglen foderneiddio ysgolion y Cyngor sydd yn ddiamau wedi cyfrannu at safonau gwell. Rhoddodd wybod i'r Aelodau fod dyraniad 2018/19 yn cynnwys £1.150 miliwn o adnoddau ychwanegol a gafodd eu nodi fel rhan o'r "Cynllun Corfforaethol - Blaenoriaethau Buddsoddi" a gafodd eu cytuno gan y Cyngor ar 29 Tachwedd 2017 (£0.650 miliwn) a 28 Chwefror 2018 (£0.500 miliwn).

Cyfeiriodd yr aelodau at adran 5 yr adroddiad lle mae dyraniadau arfaethedig y cronfeydd rhaglen gyfalaf arfaethedig ar gyfer 2018/19 yn cael eu hamlinellu. Rhoddodd wybod bod manylion pellach am y rhaglenni gwaith i'w cael yn atodiadau 1-10 yr adroddiad.

Croesawodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Addysg a Dysgu Gydol Oes yr adroddiad a chyfeiriodd at y sylwadau cadarnhaol a gafodd eu derbyn mewn cyfarfod diweddar o'r Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifainc mewn perthynas â'r cyfleoedd i fuddsoddi sydd ar gael.

Ychwanegodd yr Aelod o'r Cabinet ei bod yn bleser gweld y Cyngor yn parhau i gyflwyno'r rhaglen wella a moderneiddio hirdymor ar gyfer ysgolion i gefnogi Blaenoriaethau Cynllun Corfforaethol y Cyngor: Economi – Adeiladu economi gref.

Nododd yr Arweinydd lwyddiant Rhaglen Ysgolion yr 21<sup>ain</sup> Ganrif, y gostyngiad

yn yr ôl-groniad o waith cynnal a chadw a'r buddsoddiad sy'n cael ei wneud ar ben y rhaglen arferol. Gorffennodd trwy ychwanegu y byddai buddsoddiad o'r fath i gynnal adeiladau ysgolion yn caniatáu ysgolion i fuddsoddi yn y ddarpariaeth Addysg.

Ar ôl trafod, **PENDERFYNODD** y Cabinet:

1. Cymeradwyo cynlluniau blaenoriaethol y Rhaglen Gyfalaf i Sicrhau Addysg ar gyfer 2018/19 fel sy'n cael eu hamlinellu yn Atodiadau 1-10 o'r adroddiad ac i gymeradwyo dechrau ar y cynllun.

## **129 PRIFFYRDD, TRAFNIDIAETH, A CHYNLLUNIAU STRATEGOL – RHAGLEN ATODOL 2018/19**

Darparodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Gwasanaethau'r Priffyrdd a Gofal y Strydoedd raglen gyfalaf manwl ar gyfer Aelodau'r Cabinet ar gyfer y Priffyrdd, Trafnidiaeth a Chynlluniau Strategol ar gyfer 2018/19.

Rhoddodd fanylion i'r Aelodau yn erbyn dyraniadau cyfalaf penodol 2018/19 o £11.772 miliwn o blaid Gwasanaethau Technegol y Priffyrdd ac £11.897 miliwn o blaid Prosiectau Strategol. Ychwanegodd bod y dyraniadau yma'n cael eu gwneud er mwyn diogelu uniondeb hirdymor y rhwydwaith priffyrdd a chlodiant a'i wella, er mwyn delio â gofynion teithio cynyddol. Cyfeiriodd hefyd at gyllid gan Lywodraeth Cymru a'r Fargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd. Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth yr Aelodau at adran 4.1.4 o'i adroddiad a oedd yn rhoi manylion am y rhaglen a'r dyraniad cyllid.

Croesawodd Arweinydd y Cyngor y buddsoddiad yn y priffyrdd, gan roi sylwadau ar y buddsoddiad ychwanegol gan y Cyngor o flwyddyn i flwyddyn ar y Rhwydwaith priffyrdd. Y rhwydwaith yw ased mwyaf y Cyngor, ac mae'n werth mwy na £3.4 biliwn. Croesawodd yr Arweinydd arian Llywodraeth Cymru a dywedodd hefyd nad oedd nifer o grantiau y mae'r Cyngor wedi gwneud cais amdany'n nhw wedi'u cyhoeddi eto. Cyfeiriodd yr Arweinydd hefyd at y tywydd garw diweddar a effeithiodd ar y priffyrdd a'r gwaith cynnal a chadw sydd i gael ei wneud.

**PENDERFYNODD** y Cabinet:

1. Nodi a chymeradwyo'r Rhaglen Gyfalaf Atodol ar gyfer y Priffyrdd, Trafnidiaeth a Chynlluniau Strategol fel sy'n cael ei manylu yn yr adroddiad.

## **130 ADRODDIAD CYFLAWNIAD Y CYNGOR (CHWARTER 3)**

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Gwasanaethau Rheng Flaen sy'n rhoi trosolwg o gyflawniad y Cyngor, yn ariannol a gweithredol fel ei gilydd, sy'n seiliedig ar naw mis cyntaf y flwyddyn ariannol yma (hyd at 31 Rhagfyr 2017).

Aeth y Cyfarwyddwr ati i drafod Crynodeb Gweithredol yr adroddiad yn fanwl, gan gynnwys cynnydd a data ariannol mewn perthynas â'r blaenoriaethau yng Nghynllun Corfforaethol y Cyngor. Tynnodd y Swyddog sylw at eithriadau ym mhob un o'r adrannau manwl er mwyn yr Aelodau.

Gwnaeth yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Gwasanaethau Corfforaethol sylwadau ar sefyllfa gadarnhaol y Cyngor, yr arbedion effeithlonrwydd parhaus, a'r buddsoddiadau newydd.

**PENDERFYNODD** y Cabinet:

**Refeniw**

1. Nodi a chytuno ar sefyllfa refeniw Cronfa Gyffredinol y Cyngor fel y mae ar 31 Rhagfyr 2017 (Adran 2 o'r Crynodeb Gweithredol).
2. Cymeradwyo'r trosglwyddiadau (wedi eu rhestru yn Adrannau 2a–d o'r Crynodeb Gweithredol yn yr adroddiad), sy'n uwch na'r trothwy o £0.100 miliwn yn unol â Rheolau Gweithdrefn Ariannol y Cyngor.

**Cyfalaf**

3. Nodi'r gyllideb gyfalaf ddiweddaraf ar gyfer y flwyddyn ariannol 2017/18 a newidiadau yng nghyfanswm cost prosiectau yn ystod y rhaglen dair blynedd (Adrannau 3a–f o'r Crynodeb Gweithredol yn yr adroddiad).
4. Nodi manylion y Dangosyddion Materion Darbodusrwydd Cylch Rheoli'r Trysorlys fel y mae ar 31 Rhagfyr 2017 (Adran 3g o'r Crynodeb Gweithredol).

**Blaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol**

5. Nodi sefyllfa chwarter 3 ynghylch y cynnydd mewn perthynas â'r Cynllun Corfforaethol cytûn (Adrannau 5a–d o'r Crynodeb Gweithredol yn yr adroddiad), Mesurau Cenedlaethol Eraill (Adran 5e o'r Crynodeb Gweithredol yn yr adroddiad) a chymharu targedau 2017/18 â'r flwyddyn flaenorol a gwybodaeth am gyfartaledd cyflawniad Cymru gyfan (Adran 5f o'r Crynodeb Gweithredol yn yr adroddiad).

**131 GWAHARDD AELODAU O'R WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD:**

1. "Bod y cyfarfod yma'n cadw aelodau o'r wasg ac aelodau o'r cyhoedd allan o ystafell y cyfarfod, dan Adran 100A(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol (fel y'i diwygiwyd), yn ystod trafod yr agendwm nesaf, ar y sail y byddai'n debygol o olygu datgelu gwybodaeth eithriedig yn ôl diffiniad paragraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf."

**132 DATBLYGIAD Â GOFAL YCHWANEGOL MAES-Y-FFYNNON**

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant ddiweddariad i'r Cabinet am y gwaith sydd wedi'i wneud i ail-ddatblygu safle hen Gartref Gofal Preswyl Maes-y-ffynnon er mwyn darparu cynllun tai â gofal ychwanegol fel rhan o Strategaeth Tai â Gofal Ychwanegol a'r rhaglen ddatblygu.

Ar ôl trafod, **PENDERFYNODD** y Cabinet:

1. Cymeradwyo'r pecyn cyllido fel sy'n cael ei amlinellu yn Adran 4 o'r

adroddiad er mwyn ail-ddatblygu safle hen Gartref Gofal Preswyl Maes-y-ffynnon ar gyfer darparu cynllun tai â gofal ychwanegol.

2. Cynnwys cynllun Maes-y-ffynnon o fewn y Rhaglen Gyfalaf 3 blynedd (Rhaglen Foderneiddio (Oedolion)).
3. Derbyn adroddiadau diweddarau ar gynnydd wrth gyflwyno'r rhaglen ddatblygu tai â gofal ychwanegol ac ar gostau'r cynllun unigol a'r gofynion ariannu i'w hystyried a'u cymeradwyo.

**Daeth y cyfarfod i ben am 11.30am**

**Y Cynghorydd A. Morgan  
Cadeirydd**